AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 213 Mehefin – Gorffennaf 2018

Synod Cymru

# Gwyliedydd

*Bydd holl goed y goedwig yn siffrwd yn llawen*
*o flaen yr ARGLWYDD, am ei fod yn dod*
***(Salm 96:12-13 beibl.net)***



# Crwydro Llefydd Sanctaidd: Lyon

## *gan Bet Holmes*

Os ewch chi i ddinas Lyon, yn Ffrainc, fe welwch arwyddion yn dangos y ffordd i'r "Grand Temple", y deml fawr. Nid adfail Rhufeinig mo hwn, er bod llawer o bethau diddorol o'r cyfnod hwnnw i'w gweld yn lleol.

Na, "temple" yw'r gair Ffrangeg am gapel "reformé", hynny yw, Calfinaidd, yr enwad Protestannaidd mwyaf yn Ffrainc, a dyma brif gapel y ddinas. Mae oedfaon Eglwys Ddiwygiedig Ffrainc yn cael eu cynnal yno ddwywaith ar y Sul (10.30 a 5.30, gyda'r Cymun ddwywaith y mis) a llawer o weithgareddau yn ystod yr wythnos. Gwaith y pensaer Gaspard André ydyw ac fe'i hadeiladwyd yn 1884



Basilique Notre Dame de Fourvière



Grand Temple

ar siâp croes Roegaidd. Mae ei arddull Bysantaidd yn ein hatgoffa o'r Dwyrain. Ond mae'n Brotestannaidd i'r carn: ar dalcen y ffasâd mae geiriau'r Iesu: "Y nef a'r ddaear, ânt heibio, ond fy ngeiriau i, nid ânt heibio ddim" ac o gwmpas y ffenestri "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi". Mae'n adeilad cryf, yn edrych allan tua'r afon Rhône, fel petai'n herio rhywbeth.

Ond beth mae'n ei herio? Edrychwch dros yr afon i gopa'r bryn, ac fe welwch chi Fasilica Lyon, *Notre Dame de Fourvière,* gan y pensaer Pierre Bossan. Yn fy marn i, mae pensaernïaeth yr eglwys dros ben llestri ac yn edrych fel teisen briodas enfawr, ond i lawer mae'n adnabyddus dan y llysenw "yr eliffant wyneb i waered"! Fe'i hadeiladwyd rhwng 1872 a 1884, i roi diolch i'r Forwyn Fair am gadw Lyon rhag ei difa yn ystod y rhyfel rhwng Ffrainc a'r Almaen ym 1870. Roedd cysegr i Fair yma ers cenedlaethau a hi yw nawddsant y ddinas; anrhydeddir hi ar 8 Rhagfyr gyda Gŵyl y Goleuadau.

Pan oedd y ddau adeilad yn newydd, nid oedd ffyddloniaid ar y naill ochr i'r afon yn cydnabod y lleill ar yr ochr arall yn Gristnogion o gwbl. Erbyn hyn mae'r tyndra rhwng yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys Ddiwygiedig yn Ffrainc wedi hen ddiflannu. Nid yw'r naill yn herio'r llall mwyach. Ond beth sy'n herio ein Cristnogaeth ni heddiw? Arian ac eiddo? Prysurdeb ein bywydau? Neu seciwlariaeth remp yr oes?

# *I'r Ynys Werdd*

Ar 12fed Mehefin mae'r Parchg. Philip a Mrs Catherine Barnett yn cychwyn ar eu hantur ddiweddaraf yn y Morris Minor ffyddlon. Taith noddedig yw hon unwaith yn rhagor i godi pres tuag at Brosiect Ymchwil MS ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Bydd y daith o amgylch arfordir Iwerddon yn cymryd 13 diwrnod ac erbyn y diwedd fe fydd y Morris Minor, sydd bellach yn 47 mlwydd oed, wedi teithio 1,600 milltir. Dyma'r drydedd daith i Philip a Catherine ymgymryd â hi ers i'w mab Tim gael diagnosis o MS yn 2009.

"Rydym yn ddiolchgar iawn i ffrindiau lawer ym mhob man am eu cefnogaeth," meddai Philip. "Pe bai rhywun yn hoffi ein helpu ni eto mae gennym safle Just Giving sef: www.justgiving.com/fundraising/moggie2018 neu medrwch anfon cyfraniad yn syth atom ni yn Brynhyfryd, 20 Jessop Avenue, Almondbury, West Yorks. HD5 8UW (sieciau yn daladwy i High Peak Fighting MS)."

Dymuniadau gorau i chi ar y daith, Philip a Catherine, a phob llwyddiant hefyd i waith y prosiect ymchwil i drechu clefyd creulon MS.



Synod Cymru

Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 213**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2018**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
1 GORFFENNAF 2018

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr gan Valery Rybakou

# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*, gobeithio y bydd yr haf wedi dod efo tipyn o haul, gwres a goleuni! Bu'n aeaf hir, ac roeddwn i mor falch o weld arwyddion y gwanwyn yn dod – yr ŵyn bach, y dail ar y coed a'r blodau (heb sôn am y chwyn!) Fe wnaeth llawer o bobl ddioddef, gwaetha'r modd, oherwydd y tywydd garw, ac mae'r canlyniadau yn parhau. Bûm yn siarad ag aelod o'r Eglwys Fethodistaidd o ynys Jersey ym mis Ebrill, a dywedodd eu bod wedi cael problemau difrifol gyda chnwd tatws 'Jersey Royals' eleni. Mae rhai ffermwyr wedi colli popeth. Mae'n rhaid i ni gofio am ein cymunedau amaethyddol. Roedd yr eira yn hwyl i rai, ond yn gur pen – a gwaeth – i eraill.

Diolch i Dduw am gylch y tymhorau. Pan fydd hi'n dechrau cynhesu, mae pobl yn teimlo'n barotach i fentro allan, i deithio ac i gymdeithasu. Mae nifer o gynadleddau eglwysig yn cael eu cynnal yr adeg hon o'r flwyddyn, wrth i'r enwadau ymgynnull i drafod materion o bwys i'r eglwys a'r byd. Bydd y Parchedig Ian Morris, ein Swyddog Ecwmenaidd, yn ein cynrychioli ni mewn sawl cynhadledd yng Nghymru, ac rwyf innau'n edrych ymlaen at y fraint o fynd i Gynhadledd yr Eglwys Fethodistaidd yn Iwerddon ym mis Mehefin. Wedyn, bydd y Gynhadledd Brydeinig yn cyfarfod yn Nottingham a bydd cynrychiolyddion o Synod Cymru yn bresennol. Cofiwch am waith y Gynhadledd, os gwelwch yn dda. Mae yna faterion o bwys i'w hystyried, ac mae gwybodaeth ar www.methodist.org.uk/conference

Mae'r holl gyfarfodydd hyn yn golygu llawer o siarad! Soniodd EM Forster am "poor little talkative Christianity", ond mae'n hanfodol siarad. Mewn oes lle mae pobl weithiau yn cuddio y tu ôl i e-byst a thecstio a Facebook a Twitter, mae cyfathrebu wyneb yn wyneb yn fwy gwerthfawr nag erioed. Mae camddealltwriaeth yn gallu codi'n hawdd pan fydd tecsts ac e-byst yn hedfan yn ôl ac ymlaen: pan fyddwn gyda'n gilydd, mae'n haws esbonio beth rydym ni'n ei feddwl, ac mae cyfathrebu'n effeithiol yn mynd tu hwnt i eiriau. "A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd" (Ioan 1: xx) Nid cyfathrebu â ni o bell wnaeth Duw, ond dod atom ym mherson Iesu i ddweud ac i ddangos sut mae yn ein caru ni, a sut mae arno eisiau i ni garu ein gilydd. Mae gair creadigol Duw yn parhau i atseinio trwy'r bydysawd ac mae'n dweud, "Rwy'n dy garu di."

Mae hefyd yn hollbwysig ceisio sicrhau ein bod yn deall ein gilydd. Mae unrhyw ymdrech ecwmenaidd yn gallu tystio i wirionedd hynny, gyda rhai ymdrechion yn parhau ers blynyddoedd – Comisiwn Eglwysi Cyfamodol Cymru, er enghraifft, a'i ymrwymiad i undod. Wrth i Synod Cymru a Wales Synod yr Eglwys Fethodistaidd ystyried creu un Synod newydd gyda'r bwriad o ddarparu mwy o gydlyniad i'n gwaith a'n galluogi i ymateb yn fwy creadigol i gyfleoedd cenhadol yn y ddwy iaith, mae cymryd amser i siarad yn hanfodol. Mae'n rhaid rhannu ein meddyliau, teimladau, syniadau a chwestiynau, a gwrando ar ein gilydd wrth geisio ewyllys Duw. Gobeithiaf fod aelodau Synod Cymru wedi darllen y papur drafft am egwyddorion ac amserlen y broses, sydd i'w weld ar www.synodcymru.org.uk. Rhoddwyd hyn gerbron cyfarfod ein Synod ym mis Ebrill ac fe ddaw gerbron Wales Synod ym mis Medi. Mae'n bwysig dechrau siarad wrth inni fynd ymlaen i ymgynghori'n eang yn nhymor yr hydref. Croeso i chi gysylltu â mi, â'n gweinidogion ac â'r rhai sy'n eich cynrychioli ar Bwyllgor Polisi'r Synod i ddweud beth yw eich ymateb cychwynnol.

Mae siarad â'n gilydd yn bwysig oherwydd fe'n gelwir i siarad ag eraill am newyddion da cariad Duw yng Nghrist ar eu cyfer hwythau. Dyna beth yw pwrpas ein holl drafodaethau a'r holl siarad – nid er ein mwyn ein hunain ond er mwyn Duw a'i deyrnas a'i blant annwyl. Fel un o Swydd Efrog, rwyf wrth fy modd yn cael ymgom – fel llawer o Gymry hefyd, buaswn i'n dweud! Edrychaf ymlaen at dderbyn adnodd newydd ein henwad sy'n cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf, *Talking Of God* (gweler www.mph.org.uk) Mae'n becyn i'n helpu i sgwrsio tu mewn a thu allan i'r eglwys am beth sydd o wir bwys i ni. Mae rhai pethau yn werth eu dweud eto ac eto. Boed i ni glywed yn barhaus air tragwyddol Duw: "Rwy'n dy garu di." Diolch iddo.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Fe ŵyr darllenwyr y *Gwyliedydd* am ddoniau digamsyniol Ioan Roberts, Llwynhudol, Pwllheli fel awdur nifer o gyfrolau ac fel newyddiadurwr ar raglenni teledu fel *Y Dydd* a *Hel Straeon*. Ei gyfraniad pwysig diweddaraf yw'r cofiant cyntaf yn y Gymraeg i Philip Jones Griffiths (1936-2008), y ffoto-newyddiadurwr byd-enwog a anwyd yn Rhuddlan, Sir y Fflint. Cyfarfu'r ddau yn 1996 yn Efrog Newydd tra roedd Ioan Roberts yn ffilmio i *Hel Straeon* i S4C. Arweiniodd y cysylltiad i fod yn gyfeillgarwch agos ac yn sbardun i gofio'r athrylith a fu farw ddeng mlynedd yn ôl.

Wedi ei gyfnod ysgol fe aeth Philip yn brentis i Boots yn y Rhyl ac yna yn 15 oed aeth i astudio yn Ysgol Fferyllol Prifysgol Lerpwl gan lwyddo i ddod yn aelod o'r *Pharmaceutical Society of Great Britain*. Yn blentyn roedd eisoes wedi defnyddio camera Kodak Box Brownie ei fam, a thra yn y Rhyl bu'n tynnu lluniau ymwelwyr ac ennill digon i brynu camera Leica. Cafodd swydd yn Llundain fel rheolwr nos yn Boots Piccadilly ac yno gwelodd fywyd y ddinas yn ei holl amrywiaeth. Treuliodd ei ddyddiau yn tynnu lluniau ar ei liwt ei hun ac yn fuan iawn roedd ei waith yn ymddangos ym mhapurau'r *Guardian* a'r *Observer*. Yn y cyfnod hwn daeth i adnabod rhai o ffotograffwyr enwocaf y cyfnod ac yn 1961 fe benderfynodd fynd ar ei liwt ei hun yn llawn amser. Bu'n tynnu lluniau mewn llawer iawn o wledydd gan gynnwys Cymru, Iwerddon, Cambodia a Fietnam. Mae'r lluniau a dynnwyd yn Fietnam yn fyd-enwog a bu'r rhain a'r llyfrau a gyhoeddwyd ganddo yn fodd i newid agwedd llawer yn yr Unol Daleithiau at yr hyn a ddigwyddodd yn eu henw mewn gwledydd tramor.

Diddorol odiaeth yw'r bennod am ddylanwad capel Tabernacl Rhuddlan ar y Philip ifanc. Nid oedd efallai yn gapelwr mawr pan oedd yn blentyn ond mae'n glir iddo fynychu'r Ysgol Sul a mynd i'r gwasanaethau yng nghwmni ei fam a'i dad. Roedd gan ei dad, Joseph Griffiths, lais da iawn ac ef oedd codwr canu capel Wesla Rhuddlan. Nid oedd y ddawn canu wedi'i throsglwyddo i Philip na'i frawd Penri! Mae'n ymddangos i'w daid, Henry Griffith, gael cryn ddylanwad arno wrth ei rybuddio rhag 'oglau'r diafol' a ddeuai o'r dafarn leol wrth i'r teulu fynd i'r capel. Ni ysmygodd Philip ar hyd ei oes a'i unig ddiod feddwol oedd gwydriad o win coch o dro i dro.

Un o arwyr mawr Philip oedd ei ewyrth Wil, sef y Parchedig William Llewelyn Jones (1919-1976), gweinidog gyda'r Wesleaid a chefnder i'w dad. Ganed W Llewelyn Jones yn Llanfairfechan a dechreuodd ei daith fel gweinidog Wesleaidd yn 1942. Treuliodd gyfnodau yn Llanfechain, Ffynnongroyw, Prestatyn, Penmachno, Bangor a Llanrhaeadr ym Mochnant. Bu farw yn Llanrhaeadr 20 Medi 1976. Yn ôl cofnod gan Philip am yr angladd, roedd pob pregethwr yng Nghymru yn Llanrhaeadr y diwrnod hwnnw.

Roedd William Llewelyn Jones yntau yn dynnwr lluniau brwd iawn ar hyd ei oes. Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno 1963 am Lyfr Taith. Roedd y gyfrol a anfonwyd i'r eisteddfod yn un swmpus iawn gyda 13 o deithiau trwy Gymru ynddi. Roedd y tri beirniad o blaid gwobrwyo ac yn unfryd yn datgan bod y mapiau a'r lluniau yn rhai rhagorol. Cyhoeddwyd y gyfrol o dan y teitl ***Ar Grwydr*** yn 1970 pan oedd yr awdur yn weinidog ym Mangor. Cwtogwyd y gyfrol wreiddiol i saith pennod, yn ein harwain i Fro'r Bardd Cwsg, Ynys Enlli, Bro Goronwy, Bro Aled, Bro Ceiriog a Bro Ann Griffiths. Ar nodyn personol fe fûm ar ddechrau 1971 yn glaf yn Ysbyty Môn ac Arfon am dri mis. Un o'r rhai a ddaeth i'm gweld yno yn gyson iawn oedd William Llewelyn ac fel arwydd o'r cyfeillgarwch a dyfodd rhyngom, fe gyflwynodd gopi o *Ar Grwydr* imi gyda'i lofnod a chyfarchion mewn ysgrifen hynod o ddestlus ar y dudalen flaen. Mae'r gyfrol yn un o'r trysorau rwyf yn troi ati yn lled aml. Fe fyddai gan bobl Llanfyllin ddiddordeb yn nisgrifiad yr awdur o'r dref ac mae'r stori am Richard Hughes (dyn y gwallt mawr) yn ochneidio wrth glywed cyfeiriad at ei fam un nos Sul mewn oedfa ym Mwlchycibau yn werth ei darllen. Mae'r stori yn berl – ac yn wir, gan mai William Llewelyn oedd y pregethwr y noson honno.

Mae'r gyfrol yn brawf fod gan William Llewelyn wybodaeth eang am hanes Cymru. Mae'r wybodaeth honno yn amlwg hefyd yn y 147 o stribedi ffilm a fu'n gefndir i'w ddarlithoedd i'r WEA. Gellir cael blas ar safon y lluniau gan fod rhai wedi'u defnyddio yn y gyfrol *Bro a Bywyd T Rowland Hughes*.

Yn 1954 pan alwyd Philip Jones Griffiths i'r fyddin penderfynodd wrthod mynd ar y sail ei fod yn wrthwynebydd cydwybodol. Ei ewyrth Will a dystiodd yn y tribiwnlys gan sôn am ddaliadau crefyddol heddychlon Philip.

Un o'r darluniau mwyaf arswydus yn y cofiant i Philip Jones Griffiths yw'r un a dynnodd yn Ysbyty Tu Du, Saigon yn 1980, yn dangos ffoetysau a erthylwyd fel canlyniad i'r 'Agent Orange' a ddefnyddiwyd gan yr UDA sef pladur gemegol i ladd coedwigoedd yn Ne Fietnam. Y diocsin yn y cemegau fu'n gyfrifol am effeithio ar y babanod yn y groth. A ninnau'n clywed llawer am y defnydd o arfau cemegol heddiw, roedd Philip Jones Griffiths yn ôl yn 1980 yn dangos y staen oedd ar ddwylo'r Americanwyr.

Diolch i Ioan Roberts am ei gyfrol. Diolch hefyd am y rhai ym mhob oes sy'n barod i wrthwynebu barbareiddiwch dynion.

---

# Yr Ymwelydd

Ym mhapur bro *Llais Ardudwy*, ei hen ardal ym Meirionnydd, mae Gwenda Davies, Shiloh, Tregarth yn sôn am ei phrofiad wrth gyfeilio yng nghapel Moreia, Llanbedr un bore Sul yn nechrau'r chwedegau. Nid oedd y ddwy organyddes arferol ar gael y bore hwnnw. Meddai Gwenda: "Rhaid pwysleisio nad oeddwn yn giamstar am gyfeilio ond yn llawn hyder mi es i drio! Mae gen i ofn mai digon trychinebus oedd y canu a'r cyfeilio y bore hwnnw. Ar ddiwedd y gwasanaeth sylwais fod dyn dieithr yn eistedd yn un o'r seddau. Doedd gen i ddim syniad pwy ydoedd.

"Gallwch feddwl sut y teimlwn pan glywais mai Osian Ellis, un o gerddorion a thelynor mwyaf y byd oedd yno'n eistedd ac yn gwrando ar y fath gerddoriaeth. Roedd wedi dod draw am benwythnos at ei rieni yn Llanbedr.

"Ac yntau newydd ddathlu ei ben-blwydd anfonais gerdyn ato i Bwllheli i ddymuno'n dda iddo ac i ymddiheuro am y bore Sul hwnnw ar gychwyn y chwedegau!

"Tybed oedd o'n cofio? Sut alla i anghofio?"

## Merched a'r Eglwys

Cynhelir cwrs hyfforddi dan y teitl 'Merched a'r Eglwys' ar Fehefin 20fed yng Ngholeg Trefeca ac ar Orffennaf 2ail yng Ngholeg y Bala. Cyfle i drafod cwestiynau fel: Beth ddywed y Beibl? Beth mae'r eglwys yn ei olygu i ferched Cymru heddiw? Sut gall yr eglwys siarad efo merched dan 40? Siaredir gan Manon C. James ac Arfon Jones a bydd Panel yn cynnwys Mererid Mair, Nan Powell Davies ac eraill. Croeso i bawb: am fanylion pellach cysylltwch â Delyth Oswy delyth@ebcpcw.org.uk 07986932261.

# Deled dy Deyrnas



## *gan y Parchedig Martin Evans-Jones*

Yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd* (Ebrill-Mai), soniodd Bet Holmes am dwf mudiad 'Deled dy Deyrnas' ac am yr adnoddau a baratowyd ar gyfer y mudiad gweddi byd-eang hwn eleni. Efallai i chi dderbyn copi o'r llyfryn 'Disgwyl mewn Rhyfeddod' yn llawn lluniau trawiadol. Canolbwyntio a wna'r mudiad yn benodol ar y cyfnod rhwng y Dyrchafael a'r Pentecost, gan annog Cristnogion i weddïo am i bobl ddod i adnabod yr Iesu. Ond nid oes dim i'n rhwystro rhag ei barhau ar adegau eraill o'r flwyddyn yn ogystal. Nid oes dim byd mwy angenrheidiol yn y Gymru gyfoes na hyn.

Wrth weddïo fe ymunwn â theulu Duw drwy'r holl fyd a thrwy weddi caiff pobl eu gweddnewid gan yr Ysbryd Glân, sy'n eu galluogi i ddarganfod hyder newydd i fod yn dystion dros Iesu Grist. Fel y gwyddom mae'r cymal "deled dy deyrnas" yn dod o Weddi'r Arglwydd (Mathew 6.9-15) lle dysgodd Iesu i'w ddisgyblion sut i weddïo. Mae rhai yn meddwl y gallwn ni fel Cristnogion adeiladu teyrnas Dduw ar y ddaear trwy ein hymdrechion ein hunain. Mae hyn yn gwbl gyfeiliornus. Dim ond Duw all ddod â'i deyrnas i mewn. Ein gwaith ni yw gweddïo amdano ac aros. Ni allwn adeiladu teyrnas Dduw ar y ddaear oherwydd mae ein hymdrechion gorau tuag at heddwch, cyfiawnder, a chymdeithas wâr wedi eu cyfaddawdu gan bechod. Dim ond Duw all ddod â'r gweddnewidiad terfynol sydd yn dirymu pechod yn gyfan gwbl.

Pan oedd John Wesley yn blentyn tua phedair oed aeth y rheithordy lle roedd y teulu'n trigo ar dân. Achubwyd y plant eraill ond anghofiwyd am John nes iddynt ei weld yn ffenestr y llofft. Cipiwyd ef gan ddyn ar ysgol funudau cyn i'r tân wneud amdano. Galwyd ef wedyn yn "bentewyn a blyciwyd allan o'r tan" a gweddïodd ei fam ar i Dduw ei ddefnyddio fel offeryn i alw cynifer ag y gallai i mewn i'r deyrnas. Ac felly y bu.

Pwy a ŵyr faint o bobl allwn ninnau eu hennill i Grist trwy weddi! Oni ddywedodd Dewi Sant, "Gwnewch y pethau bychain"? Beth am i ni, fel eglwys leol, drefnu diwrnod o weddi, gydag emynau efallai, a phaned o de, yn ystod yr haf yma, a'i hysbysebu trwy'r gymuned? Beth amdani!

---

# Anrhydeddu Telynor

Ar lwyfan, ar y cyfryngau ac ar ddisg cofnodwyd cyfraniad clodwiw Osian Ellis i fyd y delyn wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed eleni. Penllanw'r dathlu oedd y cyngerdd yn Pontio, Bangor, lle'r ymddangosodd Syr Bryn Terfel ac yr ymunodd y delynores Hannah Stone ag ef i berfformio gwaith newydd gan Dr Ellis, *Cylch o Ganeuon Gwerin Cymraeg*. Ar ddiwedd y cyngerdd cododd y gynulleidfa i ganu 'Pen-blwydd hapus'.




Anrhydeddwyd y telynor hefyd ym mhedwaredd Ŵyl Delynau Ryngwladol Cymru yn y Galeri, Caernarfon. Cyfansoddodd y prifardd Mererid Hopwood gerdd newydd, *Osian*, ar gyfer y digwyddiad. Y delynores ifanc, Mared Emlyn a gyfansoddodd y gerddoriaeth gan weithio gyda Gwenan Gibbard i gyflwyno'r gwaith er clod i Dr Ellis.

Rydym ni yn Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd yn ymfalchïo fod Osian Ellis yn un o'r teulu Wesleaidd. Mae'n addoli yng nghapel Seion, Pwllheli, gan wasanaethu fel organydd yno. Yn "fab y mans", mab y Parchedig T G a Mrs Jennie Ellis, fe'i ganed yn Ffynnongroyw. Yn ei ieuenctid cafodd athrawes wych yn Alwena Roberts, Telynores Iâl, cyn ennill ysgoloriaeth yn yr Academi Gerdd Frenhinol dan Gwendolen Mason, lle bu yntau yn Athro'r Delyn rhwng 1959 a 1989.

Ym 1961, ymunodd â Cherddorfa Symffoni Llundain fel prif delynor gan berfformio'n aml yn y London Palladium. Y flwyddyn cynt cyfarfu â'r cyfansoddwr Benjamin Britten, a chafodd gysylltiad hir ag ef wrth iddo ysgrifennu cerddoriaeth yn arbennig i'r telynor. Recordiodd lawer o'i weithiau.

Mae Sain wedi rhyddhau cryno ddisg i nodi pen-blwydd Osian Ellis, casgliad newydd o'i berfformiadau gyda thraciau o'r archif a rhai newydd. "Nid trysor i delynorion yn unig mo hwn," medd Geraint Lewis am y cd yn Barn, Mai 2018.

Ar ôl seibiant o 15 mlynedd tra'r oedd yn gofalu am ei ddiweddar wraig Rene, mae'n canu'r delyn unwaith eto. Roedd yn haws na'r disgwyl mynd yn ôl ati, meddai mewn cyfweliad cyn ei ben-blwydd.

"Pan fyddwch chi'n chwarae llawer, mae'ch bysedd yn caledu'n naturiol ond pan fyddan nhw'n feddal ac os nad ydych chi wedi chwarae ers nifer o flynyddoedd, gall fod yn eithaf anodd."

Pob bendith i chi, Osian.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Horeb, Llanrwst*

**CYNNAL CINIO CYNNIL**
Cafwyd cefnogaeth dda iawn, gan aelodau eglwysi'r dref a chyfeillion eraill, i'r cinio a gynhaliodd capel Horeb. Gwnaed elw o £126 er budd Cymorth Cristnogol.

**CROESAWU PHILIP A CATHERINE**
Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Philip Barnett a Catherine atom yn ddiweddar a da deall eu bod yn ymgartrefu yn Huddersfield.

**ER COF ANNWYL**
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r ddiweddar Mrs Mary Hughes, a fu'n aelod ffyddlon iawn yn Horeb ers iddi ddod i drigo yn Hafan Gwydir. Pan fyddem yn cynnal gwasanaeth yn yr Hafan, byddai Mary wedi ei hysbysebu a gofalu bod yr holl drigolion yn ymwybodol o'r cyfarfod.

**GOHEBYDD** . EIRA JONES

### *Triniti, Pontarddulais*


**PERTHYNAS**
Mae ein gweinidog ni, a'r ficer y Parchedig Ddr John Gillibrand, un sydd newydd ddod i ofalu am blwyf Llandeilo Talybont, ill dau yn frwdfrydig o blaid ceisio closio'r enwadau Cristnogol yn y pentref. Maent yn barod wedi cael Eglwysi'r Triniti, a Sant Teilo a Sant Mihangel i rannu gwasanaethau'r Sul ar ddau achlysur: y cyntaf yn y Triniti, Chwefror 5, gyda'r ficer yn y pulpud a'r ail dro ar y Sul dilynol yn Sant Mihangel, gyda'r gweinidog yn pregethu. Ffrwyth yr Ysbryd yn y ddau wasanaeth oedd cydweithgaredd hynaws, ystyriol dawel. Mae cysylltiad lleol arbennig rhwng y Triniti ac Eglwys Sant Mihangel oherwydd mai Cwmni A ac A Thomas, Tŷ Gwyn, y ddau frawd Arthur ac Abel yn rhan o un o hen deuluoedd gwreiddiol y Triniti, oedd yn gyfrifol am adeiladu'r Eglwys yn y blynyddoedd 1990/01. Yn y llun hwn gwelir yr Eglwys ar hanner ei chwblhau a'r ddau yn bresennol ar y sgaffaldau.

**SUL Y BLODAU A'R PASG**
Braf ar Sul y Pasg oedd dod i fyny'r llwybr o brysurdeb yr A48, yr hen brifffordd sy'n cysylltu dinas Caerdydd a thref Caerfyrddin, i dawelwch y capel a phrydferthwch y fynwent oedd yn fwrlwm o flodau lliwgar. Roedd gwasanaeth Sul y Pasg yng ngofal y gweinidog a chafwyd pregeth yn seiliedig ar y brawddegau cyntaf ac olaf yn y pedair Efengyl.

**CYFARCHION**
Fel Eglwys anfonwn ein cyfarchion cynhesaf at Margaret Bowen a Janet Mair Jones, dwy a fu'n ffyddlon i wasanaethau'r Sul dros y blynyddoedd ond sydd bellach yn rhy fregus eu hiechyd i ddod i oedfa'r Sul.

Dymuniadau gorau hefyd i Mair a Raymond Thomas, ill dau wedi bod yn wael. Mae Alan Thomas yntau wedi bod yn yr ysbyty a chael llawdriniaeth ar ei glun; dymunwn wellhad llwyr iddo dros yr wythnosau nesaf.

**GOHEBYDD** . J R JONES



### *Tabernacl, Llanfyllin*

**PRYDAU'R GRAWYS**
Cynhaliwyd dau Bryd Grawys eleni, dan nawdd Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn Llanfyllin, a llwyddwyd i godi £100. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

**AMBIWLANS AWYR CYMRU**
Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yn yr Institiwt, Llanfyllin, yn ddiweddar o dan nawdd y Tabernacl a llwyddwyd i godi £600 er budd Ambiwlans Awyr Cymru. Cafwyd cymorth a chefnogaeth dda gan eglwysi a phobl yr ardal ac roedd swyddog o'r Ambiwlans yn bresennol.

**SUL Y PASG**
Cafwyd oedfa hyfryd ar fore Sul y Pasg dan ofal yr Ysgol Sul. Cymerwyd rhan gan Mared Price, Eos Jones, Celyn Roberts, Erin Tomlinson a Teleri Lloyd Evans, gyda chymorth eu rhieni. Thema'r gwasanaeth oedd dwylo Crist. Derbyniodd y plant wyau Pasg gan Mr Tom Ellis. Diolch i Mrs Eleri Llwyd Jones a Mrs Rhian Lloyd Evans am eu gwaith trefnu.

**DRWS AGORED**
Ar 4 Ebrill mwynhawyd 'Taith drwy hen Lanfyllin' gyda Richard Kretchmer yn tywys, gyda chymorth sleidiau hynod ddiddorol a lliwgar. Dymunwyd yn dda i Mrs Mary Owen ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Y siaradwr yng nghyfarfod mis Mai oedd Lloyd Davies, prif fachgen Ysgol Uwchradd Llanfyllin, yn sôn am ei daith ddiweddar i Batagonia.

**GOHEBYDD** . ROBIN HUGHES

### *Pont Robert*

**GWELLHAD**
Er yn ddiweddar rydym yn falch fod Hywel Edwards, gŵr Eirlys Brynawel, yn parhau i wella. Rydym hefyd yn dymuno'n dda i Llinos Jones, Tynywig, a fu yn yr ysbyty yn cael profion.

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cofion at Alwena Wright yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yng nghyfraith.

**LLONGYFARCH**
Mae Mari Jones, Bodyddon Fach, wedi ennill Gradd 8 gyda Theilyngdod mewn Canu. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

**GOHEBYDD** . MARGARET BLAINEY

### *Pisgah, Rhiwlas*

**DATHLU PRIODAS DDIEMWNT**
Llongyfarchiadau i John Huw a Heulwen Evans, a ddathlodd drigain mlynedd

o fywyd priodasol ar Chwefror 23ain. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch eich dau.

**ER COF ANNWYL**
Ar Fawrth 28ain, 2018, collodd Capel Pisgah ein haelod hynaf, sef Mrs Meirwen Owen (Anti Miw), Frondeg, Rhiwlas gynt, yn 92 mlwydd oed. Bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys ar hyd y blynyddoedd. Diolch i'r Parchedigion Gwynfor Williams a Richard Gillion am ymweld â Meirwen, ac am eu gwasanaeth ddydd yr angladd. Cydymdeimlwn yn fawr ag Einir Wyn ei merch, Hefin ei mab yng nghyfraith, a'r teulu i gyd yn eu colled drist.

**BOD YN EGLWYS DDEMENTIA-GYFEILLGAR**
Mynychodd dwy aelod o'r Eglwys, sef Einir Wyn Williams a Rhian Evans Hill y cyfarfod yng nghapel Shiloh Tregarth ar ddydd Sadwrn 21 Ebrill. Cyfarfod oedd yn gwneud inni feddwl am ein rôl o fewn cymdeithas, i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o ddementia. Oherwydd ein cysylltiadau personol â sawl cartref yn yr ardal hon, rydym ni ym Mhisgah eisoes wedi bod yn cynnal gwasanaethau byr i'r preswylwyr ar adegau penodol o'r flwyddyn, ac yn bwriadu parhau i wneud hynny. Tybed a oes chwaneg ohonoch a fyddai'n fodlon ymuno â ni yn y dyfodol neu'n fodlon rhoi o'ch amser i wneud gwaith tebyg?

**GOHEBYDD** . EINIR WILLIAMS

## *Ardal Bathafarn*

**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Lynne a Gareth Hughes, Corwen, ar ddathlu eu Priodas Aur. Pob bendith a hapusrwydd i'r dyfodol.

**COFION**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Eva Rogers-Jones sydd yn Ysbyty Rhuthun ac at Gretta Davies sydd wedi setlo yng nghartref gofal Dolwen. Meddyliwn amdanoch eich dwy, a phawb arall sydd mewn gwaeledd.

**PROFEDIGAETH**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Meta Beech a Gwyn Williams, y ddau wedi colli chwiorydd yng nghyfraith sef Hefina Beech, Rhuthun, ac Elizabeth Williams, Llanelli. Cydymdeimlwn hefyd â Gwyneth, Ceinwen, Arwel a'u teuluoedd o golli cyfnither sef Alice Jones, Arenig, a oedd yn enedigol o fro Cyffylliog.

**Y GYMDEITHAS**
Hyfryd oedd cael cwmni Eurgain Prysor, a fu'n sôn wrthym am ei hatgofion o fyw yng Nghapel Celyn yn ystod cyfnod anodd iawn yn hanes y cwm. Diddorol iawn i ni i gyd oedd gweld lluniau ganddi o'r ysgol ac o'r ardal. Roedd yn braf iawn cael cwmni rhai o'r genhedlaeth iau; pwysig iawn eu bod hwythau'n dod i wybod am hanes Capel Celyn. Noson i'w chofio yn sicr.

**Y GRAWYS**
Daeth criw bach ynghyd yn ystod y Grawys. Dewiswyd testun gan y Parchedig Martin Evans-Jones a chafwyd trafodaeth gyfeillgar ymysg ein gilydd.

**Y GROGLITH**
Trefnwyd cyflwyniad "Gwrthrychau'r Groes" gan Martin ym Mathafarn a daeth criw da ynghyd.

**Y PASG**
Ar Sul y Pasg daethom ynghyd yng Nghanolfan Awelon. Roedd y defosiwn yng ngofal Marian (Corwen), Siôn (Gwyddelwern) ac Elfed (Glyndyfrdwy). Hyfryd oedd cael cyflwyniad cerddorol gan blant ac ieuenctid lleol sef Elain, William, Lois, Osian ac Ynyr, gyda Catrin yn cyfeilio, ac eitemau llefaru a cherddorol gan Gwyn Hafod Elwy a Geraint Roberts, Dinbych. Llywyddwyd gan Siôn Hughes a chyfeiliwyd gan Meta Beech; cafwyd hefyd sgwrs bwrpasol gan y Parchg. Martin Evans-Jones. Mwynhawyd lluniaeth blasus a baratowyd gan Mairwena gyda chymorth Meta, Beryl a Gwyneth.

**CYFARFOD Y SYNOD YN NHREGARTH**
Martin ac Elizabeth oedd yn cynrychioli Ardal Bathafarn ar ddiwrnod hynod o braf o fis Ebrill, pan gynhaliwyd y Synod dan lywyddiaeth y Parchg. Ddr Jennie Hurd. Diolch i gyfeillion Tregarth am eu croeso a'r lluniaeth blasus. Da deall fod Pete, priod Jennie, yn well. Cofion cynhesaf ato.

**OEDFAON**
Diolch am wasanaeth y Parchedigion Bernant Hughes a Peter Jennings, y Chwaer Eluned Williams, Elwyn Ashford Jones a Richard Jones, ym Mathafarn, ac Elizabeth Jones a'r Parchedig Gwilym O. Jones yng Nglyndyfrdwy. Rhian ac Enid oedd y cyfeilyddion a Dafydd ac Elfed oedd y cyhoeddwyr. Hyfryd oedd cael cwmni Eirlys a Siôn Dwyryd gyda ni, dau ffyddlon a gweithgar yng nghapel Wesle Rhewl, Llangollen.

**GOHEBYDD** . ELIZABETH JONES

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**ER COF ANNWYL**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Megan Evans, priod cariadus Islwyn a mam annwyl Iwan, Manon, Teleri, Ffion ac Euryn, nain a hen-nain arbennig a chwaer Robin ac Idwal. Cafodd Megan ei magu yng Nghwm Penmachno, yn ferch i'r diweddar Ifan a Mair Lloyd Jones. Roeddent i gyd yn aelodau ffyddlon yng nghapel Shiloh, Cwm, cyn symud i fyw i dŷ capel Jerwsalem, Bethesda. Wedi priodi ag Islwyn symudodd Megan i fyw i Lanfairfechan a'r Gyffordd. Fel Eglwys cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chi oll yn eich profedigaeth o golli un mor annwyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Eirwen Jones o golli ei chwaer yng nghyfraith a'i brawd yng nghyfraith.

**CROESO'N ÔL**
Croeso'n ôl i Miss Barbara Thomas a fu ar ei gwyliau am chwe wythnos yn Awstralia a Seland Newydd. Gobeithio i chi fwynhau, Barbara!

**ACHLYSUR COFIADWY**
Ar brynhawn Sul Mawrth 25, yn Eglwys Fethodistaidd Saesneg Hen Golwyn, mwynhawyd gwledd o ganu o dan ofal Côr Gospel Prifysgol Sheffield. Ugain o bobl ifanc dalentog iawn yn cadw cyngerdd am dros ddwy awr. Canwyd caneuon traddodiadol gospel yn Saesneg ac Affricaneg ynghyd â chaneuon poblogaidd o ffilmiau Disney a'r sin pop. Cafwyd eitemau cerddorol gan y band ac unawdwyr y côr. Roedd rhai o'r caneuon hefyd yn cael eu perfformio drwy'r iaith arwyddo. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn yn ystod yr egwyl, wedi ei baratoi gan y myfyrwyr, a chafwyd amser i gymdeithasu gyda hwy. Criw croesawgar ac annwyl iawn tu hwnt. Derbyniwyd rhoddion tuag at CAMFED a Plant yng Nghymru yn ystod yr egwyl. Prynhawn ardderchog a bythgofiadwy.

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES

## *Ebeneser, Trefor, Môn*

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Arwyn Thomas Foulkes sydd wedi pasio arholiad gradd 6 gyda'r corn tenor. Da iawn a dal ati!

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Mrs Doris Mulcahey, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cofion hefyd at Mr O J Roberts, Bryngwran, a fu'n dod atom ers blynyddoedd i bregethu ond sydd, oherwydd ei iechyd, wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi. Dymunwn yn dda iddo a diolch am ei holl wasanaeth.

**COLLED**
Un arall a fu'n dod yma i bregethu oedd Mr Roy Williams o Landyfrydog. Bu Mr Williams farw yn ddiweddar a chydymdeimlwn â'r teulu.

**GOHEBYDD** . CARYS THOMAS

# *Cyfarfod y Gwanwyn, Merched Methodistaidd Cymru 2018*

## *gan Rona Morris*

Cynhaliwyd ein cyfarfod yng nghapel Bethel, Yr Wyddgrug brynhawn dydd Sadwrn Ebrill 28ain o dan lywyddiaeth Mrs Elizabeth Jones, Pentrecelyn, Rhuthun.

Kay Polley, swyddog gyda'r elusen Trefnu Cymunedol Cymru oedd ein siaradwraig wadd. Sefydlwyd yr elusen hon gan Nia Higginbotham yn 1995 ac mae wedi ennill un o wobrau papur newydd y *Guardian* am waith effeithiol o fewn y gymuned. Drwy gyfrwng cyflwyniad Kay clywsom am yr amrywiaeth eang o brosiectau y bu iddynt ymwneud â nhw yn ystod y blynyddoedd diweddar. Bu iddynt lwyddo i bwyso ar gyngor Wrecsam i sefydlu Tŷ Nos, ble gall y digartref gael lloches am noson. Maent hefyd yn cydweithio ag eglwysi a gwahanol fudiadau gwirfoddol i groesawu a chwilio am adnoddau addas ar gyfer ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal. Menter arall o'u heiddo yw codi



Elizabeth a Kay

ymwybyddiaeth y cymunedau lleol fel bod modd trefnu protest effeithiol yn erbyn ffracio yn y cylch. Trefnwyd hefyd i bobl ifanc gyfarfod ag Aelodau Seneddol er mwyn iddyn nhw ddod i ddeall sut mae tynnu sylw a dylanwadu ar aelodau'r Senedd yn San Steffan a Chaerdydd.

Bydd y mudiad yn parhau i drafod ac i ymchwilio i broblemau fel y rhain er mwyn ceisio meddwl am ffyrdd cynaliadwy o oresgyn y broblem. Nid ydynt yn honni bod ag atebion i drafferthion dyrys ein hoes megis diweithdra a thlodi, ond drwy gymryd camau bach maent yn llwyddo i wneud newidiadau effeithiol er lles pobl. Yn amlach na pheidio, cysylltu â'r bobl sydd â'r ddawn a'r gallu i weithredu yw'r cam pwysicaf yn y broses. Yn y misoedd nesaf gobeithir rhannu eu profiadau â chymunedau eraill y tu hwnt i'r Gogledd-ddwyrain fel eu bod hwythau yn medru manteisio ar yr hyn a brofodd yn llwyddiannus i TCC.

Ar derfyn y cyfarfod diolchodd Elizabeth Jones i Kay am ei chyflwyniad ac i Margaret Morgan a'i thîm yn yr Wyddgrug am y croeso cynnes. Diolch yn arbennig i rai o aelodau yr Ysgol Sul a fu'n arwain ein defosiwn.

---

# *Cymro oddi cartref*

## *gan y Parchedig Philip Barnett*

Yn y flwyddyn 1996 symudon ni o'r gwaith Cymraeg yn Nhregarth i Huddersfield, Swydd Efrog pan gefais swydd Arolygwr Cylchdaith Huddersfield. Ar ôl pum mlynedd daethom yn ôl i Gymru i Gylchdaith Wrecsam. Yn fuan wedi inni ddychwelyd, cefais gais gan Dr Elfed ap Nefydd Roberts i annerch y Gymdeithas yng Nghapel y Presbyteriaid yn Llandegla ar y pwnc "O Gymru i Loegr ac yn ôl". Y tro yma nid oes unrhyw "yn ôl" i ni.

Wedi bodloni ar hynny, yn arbennig oherwydd bod byw yn nes ato wedi gwneud byd o wahaniaeth i'n mab Tim, sydd ag MS, teimlwn yn gyffyrddus iawn hefyd ar ryw ystyr yn swydd Efrog am fod hanes y lle, ar wahân i'r iaith, yn debyg iawn i Gymru. Mae yma gorau a



bandiau pres a hanes diwydiannol gyda phyllau glo sydd bellach wrth gwrs wedi cau. Mae traddodiad cerddorol Swydd Efrog yn fywiog gyda chorau meibion ym mhob man ac, wrth gwrs, Cymdeithas Gorawl Huddersfield sydd yn enwog ledled y byd.

Mae baner y Ddraig Goch yn chwifio'n braf fan hyn! Mae gennym yr enw teuluol ar ein tŷ sef Brynhyfryd a sticer Draig Goch mawr ar y car. Mae un o'r Pregethwyr Cynorthwyol yn y Gylchdaith, sef Ieuan Jones, yn hanu o Groesoswallt a chyda'n gilydd rydym yn mynychu achlysuron Cymraeg a Chymreig yn y cylch. Cynhaliwyd gwasanaeth carolau fis Rhagfyr diwethaf wedi'i drefnu gan Gymdeithas Gymraeg Leeds a chynhaliwyd gwasanaeth ar y Sul agosaf i Ŵyl Dewi Sant yn Harrogate gyda naws Gymreig drwyddo. Roeddwn yn falch o weld Arthur ac Iris Pierce (Horeb, Llanrwst gynt) sydd wedi symud i Harrogate i fod yn nes at y teulu. Ym mis Mai cynhelir Cymanfa Ganu Swydd Efrog, yn Eglwys Fethodistaidd Lindley yn Huddersfield. Fi yw'r Arweinydd (am y chweched tro!) a Trystan Lewis, Deganwy yn cyfeilio.

Felly, ar y cyfan, rydym wedi setlo yma ac rydym yn ddiolchgar iawn am garedigrwydd ffrindiau yn y capel a hefyd yn y pentref sydd wedi gwneud eu gorau glas i'n croesawu ni yn ôl. Wedi dweud hynny rydym yn hiraethu bob dydd am yr hen wlad. Rwy'n falch o gael pregethu yng Nghymru tuag unwaith bob mis a mynd adref i'r Bala i weld y teulu.

Cewch fwy o hanes y tro nesaf!



## *CYFARFOD Y SYNOD AR 21 EBRILL 2018*

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Synod yn Shiloh, Tregarth ar 21 Ebrill eleni. Diolch yn fawr i gyfeillion Tregarth am eu croeso. Trafodwyd sawl mater o bwys, yn eu plith estyn cyfnod y Cadeirydd, y Parchedig Jennie Hurd, yn y swydd hon. Pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid hynny, gan obeithio'n fawr y cadarnheir y penderfyniad gan y Gynhadledd Fethodistaidd.


Gan ein bod wedi cyrraedd blwyddyn olaf ein cynllun pedair blynedd i 'Ddatblygu Ein Galwad', trafodwyd beth i'w wneud nesaf. Penderfynwyd mai da o beth fyddai cymryd fesul un, a'u datblygu o flwyddyn i flwyddyn, y chwe thema a ddaeth i'r amlwg wrth adolygu bywyd Synod a Chylchdaith Cymru y llynedd – sef **bywyd ysbrydol; gwaith gyda phlant a theuluoedd; dwyieithrwydd; estyn allan i'r gymuned; cyfathrebu; cydweithio yn ecwmenaidd**. Caiff pawb gyfle i fod yn rhan o'r cynllun maes o law.

Trafodwyd y cynnig i ddwy dalaith yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru (Synod Cymru a Wales Synod) weithio tuag at ddod at ei gilydd er mwyn ffurfio un dalaith newydd o dan yr enw Synod Cymru Wales. Cytunodd y cynrychiolwyr y dylai'r trafodaethau barhau. Mae cydweithio hapus eisoes yn digwydd ymhlith ieuenctid y ddwy Synod a chymeradwyodd y Synod hefyd gynllun cenhadol i gydweithio yn y De-orllewin o'r flwyddyn gyfundebol nesaf ymlaen.

Agorwyd trafodaeth hefyd ar ddyfodol Urdd Diaconiaid yr Eglwys Fethodistaidd, gan fod yr Urdd yn ymgynghori ynghylch y gofyniad i ddiaconiaid fod yn aelodau o urdd grefyddol, a'r posibilrwydd y gallai eraill nad ydynt yn gwneud yr un gwaith ymuno â'r Urdd. Derbyniwyd adroddiadau ar amrywiol feysydd gwaith y Synod a'r eglwysi (gan gynnwys y *Gwyliedydd,* pan ofynnwyd am nawdd i roi'r papur ar grynoddisg er budd y rhai sydd â nam ar y golwg, a diolch i'r Synod am gytuno).

Ar ôl cinio blasus, cynhaliwyd cyfarfod pellach dan ofal Delyth (DMLN), Margaret (Merched Methodistaidd) a'r Diacon Sara Windsor-Hides (MHA). Pwrpas y cyfarfod hwn oedd codi ymwybyddiaeth o wahanol ffyrdd y gallwn ddangos croeso a dealltwriaeth yn ein capeli, tuag at bobl sydd â dementia. Roedd yn gyfarfod buddiol iawn.

---



## *Cofio Martin Luther King*

"Heddiw mae gen i freuddwyd!"

"Ynys o gardod a thlodi, - ninnau
heno'n digalonni;
oes brad noeth i'n hysbryd ni
yw'r gynnau a'u drygioni,

Yn y man bydd pob mynydd yn wastad
yn gostwng i'r meysydd;
cydgerdded fydd y gwledydd
a Duw'n llywodraethu'r dydd.

Credaf, daw fe ddaw, ryw ddydd
hawl cydgerdded heolydd;
yn lle cur bydd llaw cariad,
yn lle teyrn, ceir llaw y Tad.

*Cymerau*

(detholiad o awdl 'Yfory',
Eisteddfod Powys 2009,
Y Trallwng)

---

Colofn Gerdd

# Y Cymro sydd yn yr 'Ugain Uchaf'

### gan Gareth Blainey

Pedwar darn gan Beethoven, tri gan Tchaikovsky, dau yr un gan Elgar a Vaughan Williams ac un yr un gan Rachmaninoff, Mozart, Allegri, Sibelius, Holst, Pachelbel, Handel, Barber a Syr Karl Jenkins. Dyna ugain uchaf siart y 'Classic FM Hall of Fame' eleni.

Mae'r siart hon yn cynnwys y 300 o ddarnau o gerddoriaeth mwyaf poblogaidd ar sail pleidlais flynyddol gan wrandawyr gorsaf radio 'Classic FM' ac mae pob un o'r darnau hynny'n cael eu darlledu ar yr orsaf, ar benwythnos y Pasg fel rheol. Mae hyn wedi digwydd bob blwyddyn ers 1996 a ffaith drawiadol ynglŷn â siart eleni yw mai Syr Karl Jenkins yw'r unig gyfansoddwr sy'n dal yn fyw sydd ag un o'i weithiau yn yr ugain safle uchaf. 'The Armed Man : A Mass For Peace' gan y Cymro a aned ym mhentref Penclawdd yn ymyl Abertawe yn 1944 sydd yn safle rhif 20.

Cafodd y gwaith hwn ei gomisiynu gan yr Arfdai Brenhinol (Royal Armouries) i ddathlu dechrau'r ganrif hon. Fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf yn Ebrill 2000 yn Llundain a'i gyflwyno gan Jenkins er cof am y miloedd o bobl fu farw yn Rhyfel Kosovo yn nwyrain Ewrop yn 1998 a 1999. Mae'r 'offeren dros heddwch' yn seiliedig ar yr offeren Gatholig ond mae hefyd yn defnyddio geiriau'r gân werin Ffrengig o'r 15fed ganrif 'L'homme armé' yn y symudiadau cyntaf ac olaf. Geiriau cyntaf y gân hon yw: 'L'homme armé doibt on doubter', sef 'Y gŵr arfog sydd i'w ofni.' Y symudiad olaf ond un, 'Benedictus' yw'r un mwyaf adnabyddus ac mae'r symudiad hwn yn dechrau gydag alaw brydferth ar gyfer unawdydd sielo cyn i gôr ganu'r geiriau 'Benedictus qui venit in nomine Domini', sef 'Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd'.

Mewn cyfweliad yng nghylchgrawn 'The Church Times' bron i ddeng mlynedd yn ôl dywedodd Jenkins: 'Rydw i'n cael nifer fawr o lythyrau gan bobl yn dweud eu bod nhw wedi cael eu cyffwrdd gan y 'Benedictus'. Maen nhw'n dweud mai dyma un o'r darnau o gerddoriaeth sy'n cael ei glywed amlaf mewn angladdau ym Mhrydain yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Buaswn i'n hoffi cael fy nghofio am fy mod i wedi rhoi rhywfaint o gysur i'r bobl yna.'

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Mawrth ac Ebrill o dan ofal y Parchedig Tudur Rowlands, David Barker Jones ac Enid Davies. Hoffem hefyd ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd gweddi a gynhaliwyd pan nad oedd pregethwr ar gael.

**SIOM**
Yn rhifyn diwethaf y Gwyliedydd dywedwyd ein bod yn gobeithio cael newydd da erbyn y rhifyn yma ynglŷn â'r gwaith ar do'r capel. Yn anffodus, cawsom neges gan y contractwr yn dweud na allai bellach ymgymryd â'r gwaith. Rydym wedi colli dros wyth mis ac mae'r sefyllfa yn un wir rwystredig. Bydd angen cael contractwyr newydd.

**GŴYL DEWI**
Dydd Sul 4ydd o Fawrth cynhaliwyd oedfa undebol Gŵyl Dewi tref Dinbych yn Eglwys y Santes Fair dan arweiniad rheithor Dinbych sef y Parchedig Ganon Pauline Walker. Medwyn Jones a gymerodd ran o Bendref. Cafwyd pregeth amserol gan y rheithor.

**GWASANAETH Y GROGLITH**
Bore dydd Gwener y Groglith cynhaliwyd gwasanaeth undebol dan arweiniad y Parchedig Tudur Rowlands.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â'r Parchedig Cledwyn Parry ar golli ei chwaer.

**GOHEBYDD** . MARY JONES

## Bethel, Rhiwbeina

**GŴYL DEWI**
Trwy lwc llwyddwyd i gynnal y swper Gŵyl Dewi mewn bwyty lleol ychydig ddyddiau cyn i'r eira gyrraedd.

**BOREAU COFFI**
Gohiriwyd bore coffi Gŵyl Dewi tan 9 Mawrth pan godwyd dros £400 tuag at yr elusen *'Cerddoriaeth Mewn Ysbytai'*. Cafwyd cyfle i glywed Trystan Francis yn canu detholiad o ganeuon Cymreig. Cynhaliwyd bore coffi yng nghapel Bethel ar 15 Mai gyda'r elw yn mynd at Gymorth Cristnogol.

**Y GYMDEITHAS**
Cawsom gyfarfod arbennig pan ddaeth Ann Mears atom i'n rhyfeddu gyda'i sgiliau trefnu blodau. Cawsom wledd i'r llygaid ganddi. Rhoddwyd elw'r bore i Brosiect y Digartref yn Salem, Treganna.



SUL Y BLODAU - Salem, Rhyd y Foel

Yna ar 24 Ebrill aeth criw bach ohonom am dro o gwmpas Parc Biwt i fwynhau blodau'r gwanwyn, gan lwyddo i gyrraedd Caffi Pettigrew cyn i'r glaw trwm ddisgyn.

**YR WYTHNOS FAWR A'R PASG**
Ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan oedd yn gwasanaethu ar Sul y Blodau. Ar Sul y Pasg ymunodd aelodau Bethel â'r aelodau yn Salem, Treganna.

**GWASANAETHAU**
Cawsom wasanaethau bendithiol dan arweiniad Mrs Helen Jones, Mr Mansel Jones, Mr Gwyndaf Roberts a'n gweinidog y Parchedig Evan Morgan. Cynhaliwyd Oedfa Fawl flynyddol yr Ardal yng nghapel Bethel brynhawn Sul, Mai 13.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Rhys Mathews, aelod o'r ysgol Sul, ar ei lwyddiant mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus drwy gyfrwng y Saesneg, a drefnir yn flynyddol gan Glwb Rotari Llanisien. Mae e'n ddisgybl blwyddyn 6 yn Ysgol y Wern.

**CROESO**
Croeso nôl i'n plith i Mr Arfon Roberts ar ôl iddo dreulio cyfnod ar aelwyd ei ferch yng ngogledd Lloegr.

**PEN-BLWYDD**
Pob dymuniad da i Mrs Maisie Nash wrth iddi ddathlu pen-blwydd arbennig iawn.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlir â chyn-aelodau ym Methel, sef Mrs Delyth Dunsford, Pontiets, a'i mab Llŷr, ar golli Mel, gŵr Delyth ar Ebrill 16.

**DYMUNIADAU GORAU**
Fe fydd ein gweinidog, y Parchedig T Evan Morgan yn cael ei sefydlu'n Llywydd Sasiwn y De ar 2 Mai. Rydym yn ei longyfarch ac yn dymuno pob bendith iddo yn y swydd.

**GOHEBYDD** . GWILYM E. ROBERTS

## Salem, Rhyd y Foel

**SUL Y BLODAU**
Fe gafwyd gwasanaeth â naws arbennig ar Sul y Blodau o dan arweiniad Mrs C. Blythin. Cymerwyd rhan gan Mrs Rowena Pegg, Mrs Bethan Inskipp a Miss Gwenno Blythin. Roedd cynulleidfa niferus yn bresennol gan gynnwys deg o blant a phobl ieuanc ynghyd â'u rhieni a neiniau a theidiau.

**LLONGYFARCHIADAU**
Dymunwn longyfarch Huw a Sue Roberts, Geuffos, ar enedigaeth merch sef Elena Josephine – chwaer fach i Ffion ac Elis ac wyres fach i Bobby ac Eryl Roberts, Tan'r Ogo.

**BEDYDD**
Bu gwasanaeth arbennig fore Sul Ebrill 22ain o dan arweiniad y Parchg. Tudur Rowlands pryd y bedyddiwyd brawd a chwaer sef Matthew a Mali Inskipp – merch a mab i Matthew a Bethan Inskipp. Roedd y capel yn llawn gyda theulu, ffrindiau ac aelodau Salem yn bresennol ar ddigwyddiad mor hapus.

**GOHEBYDD** . SIÂN PRICE

## St Paul, Aberystwyth

**ADDOLIAD**
Ar fore Sul 4 Mawrth daeth cynulleidfa sylweddol o aelodau eglwysi Cymraeg Aberystwyth i Ganolfan y Morlan er mwyn dathlu Gŵyl Ddewi. Cawsom wasanaeth bywiog dan ofal y Parchedig Eifion Roberts, gweinidog Capel y Morfa (Presbyteriaid), a phregethodd y Parchedig Andrew Lenny, gweinidog Seion (Annibynwyr).

Yn ôl ein harfer trefnwyd gwasanaethau unedig ar gyfer eglwysi'r dref yn ystod yr Wythnos Fawr. Ar nos Iau Cablyd cafwyd gwasanaeth Cymun dwyieithog yng Nghanolfan Sant Paul dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Roger Hides. Wedyn, ar fore Dydd Gwener y Groglith

unodd y capeli Cymraeg yn Seion dan arweiniad y Parchedig Andrew Lenny. Yn dilyn y gwasanaeth trefnwyd gorymdaith o aelodau'r cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg i lawr y Stryd Fawr er mwyn tystio i'n ffydd a thynnu sylw at bwysigrwydd yr wythnos. Ar fore Sul y Pasg unodd cynulleidfa Gymraeg Sant Paul â chynulleidfa Bethel (Bedyddwyr) mewn gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Peter Thomas, gweinidog Bethel.

Ar fore Sul 29 Ebrill cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog i'r ddwy gynulleidfa yng Nghanolfan Sant Paul. Y Parchedig Roger Hides oedd yn gyfrifol am y rhannau Saesneg a Mrs Ann Price am y rhannau Cymraeg. Mae Ann yn bregethwr cynorthwyol yn y Gylchdaith Saesneg sydd wedi dysgu Cymraeg yn llwyddiannus iawn ac yn gwasanaethu yn gyson gyda ni yn Ardal Ceredigion.

**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN

## *Eglwys Unedig Colwyn*

**DIOGELU**
Ar Ebrill 19 yn Ysgoldy Horeb cynhaliwyd cwrs ynglŷn â Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus. Cafwyd sesiwn diddorol ac addysgiadol dan ofal y Diacon Stephen Roe a Delyth Davies.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Dafydd Arfon, a gafodd ei daro'n wael yn sydyn iawn yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at Miss Nesta Hughes sydd newydd symud i Wimsley, Ffordd Dewi Sant, Llandudno.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs Edith Jones, Hen Golwyn gynt. Bu Edith a'i diweddar ŵr Arthur yn ffyddlon iawn ym Methesda Hen Golwyn ac wedyn yn Eglwys Unedig Colwyn. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i merch Siân a'r meibion Gwynfor, Gareth ac Arfon. Ar 19 Ebrill, bu farw Mr Oswyn Blythin, tad Martyn, a chydymdeimlwn yn fawr â'r teulu.

**CYFARFOD GWEDDI**
Diolch i Ken am ein cynrychioli yn y Cyfarfod Gweddi Undebol yn Horeb ar Ebrill 30.

**GOHEBYDD** . RHIANNON JONES

## *Ebeneser, Eglwysbach*

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau a chroeso mawr i Harri, mab bach cyntaf-anedig i Eurgain ac Edward, Bwthyn Ebeneser, ac ŵyr cyntaf i Hugh a Siân, Tal y Llyn, Meirionnydd, ac Ieuan ac Elen, Bryn Hafod.

**CROESO'N ÔL**
Croeso adref i Siriol, Tu Hwnt i'r Fawnog, ar ôl cyfnod o 6 mis o brofiad gwaith yn Hong Kong.

**GOHEBYDD** . CHARLES CRAPPER

## *Ebeneser, Caernarfon*

**DYMUNIADAU GORAU**
Yn dilyn cyfnod maith yn yr ysbyty, mae Gwenda Hughes yn awr yn ymgartrefu yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon. Anfonwn ein cyfarchion cynhesaf ati ynghyd â'i phriod Ronnie. Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai pryderus dros ben i'r teulu.

Derbyniodd Blodwen Griffiths, un arall o ffyddloniaid yr eglwys, driniaeth i'w llygad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddi ac i bawb o'r aelodau a fu'n gaeth i'w cartrefi yn ystod y tywydd gaeafol. Gobeithio y daw haul ar fryn a chyfle i'w croesawu drachefn i'r gorlan yn fuan.

**Y GROGLITH YNG NGHAERNARFON**
Cynhaliwyd Gwasanaeth y Cymun Bendigaid fore'r Groglith yng nghanolfan Ebeneser, sef cyfarfod undebol o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Richard Gillion gyda chymorth y Parchedig Mererid Mair. Yr organydd oedd Margaret Tüzüner. Ar derfyn y gwasanaeth aeth nifer i orymdeithio strydoedd Caernarfon gan ddilyn y groes. Aros yma ac acw i ddarllen o'r ysgrythurau a chanu emynau, cyn cyrraedd Eglwys y Santes Fair gogyfer â'r gwasanaeth teirawr yng nghwmni'r Rheithor.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau arbennig i ddau deulu o'r eglwys a fu'n dathlu penblwyddi priodasol yn ddiweddar. Priodwyd Joe a Nel, Tŷ Capel, ym Mawrth 1958 a June ac Edward Aubrey ym Mawrth 1968.

**CYDYMDEIMLO**
Yn dilyn damwain bu farw Glyn, mab y diweddar Thomas a Margaret Humphreys, yn Ysbyty Stoke. Bu Glyn yn aelod ffyddlon yn Ebeneser yn ystod ei ieuenctid. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i chwiorydd Gwenno, Olwen ac Ann, a'r teulu oll.

**GOHEBYDD** . BRANWEN L EDWARDS

## *Ebeneser, Dolgellau*

**DERBYN**
Ym mis Mawrth derbyniwyd Ms Dee Goulder yn aelod yn Ebeneser gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Mae Dee wedi bod yn ffyddlon iawn i wasanaethau Ebeneser ers dod i fyw yn Nolgellau.

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Thelma Parry sydd yn Ysbyty Dolgellau ac i Mrs Mary Dillon yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

**CARTREF NEWYDD**
Dymuniadau gorau i Mrs Megan Abbey a'i theulu yn eu cartref newydd yn 21 Hen Felin.

**GOHEBYDD** . GWYNETH MEREDITH

## *Ebeneser, Treuddyn*

**BEDYDD**
Ar 11 Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Meghan Mair, merch fach Peter a Bethan Watkiss, ac wyres Amanda Jackson. Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parchg. Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

**DYMUNIADAU GORAU**
Hoffem anfon ein dymuniadau gorau i Mrs Gwenllïan Williams, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Y GYMDEITHAS**
Parhawn i gynnal ein Cymdeithas ar y nos Fercher cyntaf o'r mis am 7 o'r gloch. Ar y 4ydd o Orffennaf, bydd y noson yng ngofal yr aelodau dan y teitl 'Brethyn Cartref', ac ar Awst 1af, disgwyliwn Mrs Lucy Williams. Ar Fedi 9fed, byddwn yn cynnal ein Te Prynhawn blynyddol yn Hafan Deg am 3 o'r gloch. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni.

**GOHEBYDD** . GLENYS DAVIES

## *Shiloh, Tregarth*

**OEDFA DEULU SUL Y BLODAU**
Paratowyd y gwasanaeth gan Christine Morris Jones, ond oherwydd amgylchiadau trist sef colli ei brawd yng nghyfraith yn y Bala methodd hi a Huw gymryd rhan eleni. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Diolch i Gwenno, Iestyn, Ifan, Myfi a Nel am eu cyfraniad ac yn arbennig i Anna Jên o Elusen Cymorth Cristnogol am ddod atom i sôn am y cefndir i Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Cyfeiliwyd gan Wynn Williams a diolchwn iddo yntau am ei gyfraniad bob amser. Diolch i Sioned Roberts am baratoi'r teisennau crog gyda phaned ar ddiwedd y gwasanaeth.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Valerie a Dewi a'r teulu yn eu profedigaeth fawr o golli priod a thad, sef David Ellis Jones.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i un o hogia Ysgol Sul Shiloh gynt sef Bleddyn Hedd Williams, ar ei briodas yn Nant Gwrtheyrn gydag Angharad Griffiths. Pob dymuniad da i chi eich dau. Llongyfarchiadau i un arall o gyn aelodau'r Ysgol Sul sef Annest Rowlinson, a lwyddodd i basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Pob lwc gyda'r gyrru, Annest, ac yn dy swydd newydd. *[A diolch i ti Annest am y cartwnau a'r lluniau ar gyfer y Gwyliedydd - Gol.]*


**GOHEBYDD** . GWENDA DAVIES

### *Swydd newydd*

Pob dymuniad da i Owain Morgan yn ei swydd newydd yn Rhydychen, a llongyfarchiadau iddo ef a Lucy ar eu dyweddïad.

### *Cynllun Efe*

Mae Cynllun Efe (Efengyl i Fro'r Eco) yn chwilio am swyddog ieuenctid newydd at fis Medi nesaf. Am fanylion ewch i'r wefan **http://cy.cynllunefe.org/**



## *Gweithredu Dros Blant*

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Capel Ebeneser, Eglwysbach, Dyffryn Conwy | £25.00 |
| Ardal De Gwynedd | £400.00 |
| Merched Peniel, Llanelwy gynt | £211.00 |
| Dienw | £50.00 |
| Blwch Casglu – Plas Llwynog | £26.14 |
| Salem, Rhyd-y-Foel | £150.00 |

Anfonwyd cyfanswm o £862.14 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad.

Os am gopi o *Adroddiad 2017/18 (Synod Cymru)* cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
cwrteden@gmail.com

# STORI WYNN

## *(D. Wynn Williams, organydd Shiloh, Tregarth)*



Dechreuais fy ngyrfa fel clerc bach ym Manc y District yng Nghaer. Yno ymaelodais yn Eglwys John Street o dan weinidogaeth y Parchedig Herbert Evans. Ymunais hefyd â Chymdeithas Gymraeg y ddinas a chael y Parchedig Hugh Rowlands yn gyfarwyddwr drama.

Yn anffodus methodd y Llu Awyr â gweithredu heb fy nghwmni ac wedi cyfnodau yn Pershore a Thornaby bûm yn 'ffodus', oherwydd fy ngallu i deipio, i gael swydd gydag adran Heddlu y Llu Awyr yn Bowlee, a chael teithio ambell dro gyda W/c Bill Bowes a fu yn aelod o'r grŵp wnaeth erlyn y Natsïaid yn Nurenberg. Fy swyddogaeth i oedd teipio digwyddiadau erlyniadau yn erbyn troseddwyr o blith yr Awyrlu.

Gwnes lawer o gyfeillion ymysg Cymry Manceinion a mynychais y capel Cymraeg agosaf sef 'Heywood Street' o dan weinidogaeth y Parchedig John Roberts (John Bach) - corrach o ddyn ond cawr o bregethwr. Bu ef a Mrs Roberts yn garedig iawn yn rhoi swper i mi cyn dychwelyd i'r gwersyll.

Wedi'r *de-mob* cefais swydd gyda'r Banc yn Rusholme, Manceinion a chael llety yn Salford, lle trigai llawer o Gymry ifanc. Pob nos Wener fe ddeuai'r gŵr casglu rhent i'r drws. Gŵr tawel a boneddigaidd a ddisgrifiwyd gan wraig y tŷ fel un oedd yn 'peintio rhyw ychydig'. Trueni na chefais y crebwyll i brynu un ohonynt gan L.S. Lowry!

Yng nghapel Pendleton y byddwn yn addoli erbyn hyn, gyda tua 40 o athrawesau a bechgyn o gwmni Metro-Vic. Tair gwaith yr wythnos byddai'r Clwb Cymraeg ar agor, gyda'r bechgyn yn byw o Sadwrn i Sadwrn – noson y ddawns! Rwy'n dal mewn cysylltiad â rhai ohonynt dros 64 blynedd yn ddiweddarach.

Erbyn hyn roedd Salford yn bell o Rusholme felly neidiais ar y cyfle i gael fflat yn Chorlton-cum-Hardy lle gallwn feicio i fyny Moss Lane i'r gwaith. Cefais bythefnos yn helpu allan yng nghangen y Banc yn Stretford lle cefais gwsmer enwog un bore – neb llai na Matt Busby a chwarae teg, cefais docyn Old Trafford ganddo. Ni chyfaddefais mai tîm Man City a gefnogwn – roedd dau Gymro, Roy Paul a Roy Clarke yn chwarae iddynt, felly doedd dim dewis.

Roedd byw ar gyflog bach mewn dinas fawr yn anodd a Chymru yn galw felly ffarweliais â'r Banc a dŵad adref i Fangor i redeg siop a swyddfa bost efo'm rhieni, cyfarfod Eirwen a phriodi yn Shiloh, Tregarth, a magu dau o blant. Erbyn diwedd y 1960au roedd yr archfarchnadoedd wedi dwyn cymaint o'r busnes fel y bu raid ystyried newid swydd. Cefais ddwy flynedd o hyfforddiant yn y Coleg Normal ac wedyn swydd yn Ysgol Llandegai cyn gorffen fy ngyrfa yn Llanddona – a chychwyn pum mlynedd ar hugain fel organydd yn yr Amlosgfa.

Rwy'n ystyried fy hun yn un arbennig o ffodus - cael pedair swydd a mwynhau pob un ohonynt; cyfarfod â phobl y bu'n fraint eu hadnabod a hyd yn hyn cael iechyd. Mae fy nyled yn fawr i'm gwraig a'm plant, i'm cyd-aelodau yn Shiloh a chyfeillion da. Maen nhw'n dweud fod pawb yn cael chwarter awr o enwogrwydd – rwy'n dal i ddisgwyl.

*Golwg bersonol 'o'r tu mewn' ar fywyd dwy gynulleidfa o Gristnogion sy'n addoli yn 2018;- y naill yn Sir Fôn, Cymru, a'r llall yn Royersford, ardal Philadelphia, Pensylfania, yr Unol Daleithiau.*

# Cymdeithas gref o gariad sydd

### *gan Edward M. Jones*

Dros y blynyddoedd diwethaf un, yn ogystal â bod yn ddiogel yng nghwlwm tynn fy nheulu agos, gallaf ddweud fy mod hefyd yn perthyn i ddau 'deulu' arall! Cyfeiriaf at ddwy gynulleidfa gynnes, un yma yng Nghymru ac un dipyn ymhellach, ond y ddwy yn cyfarfod yn enw Iesu Grist.



**Yng Nghymru:**
Ers pan symudodd fy niweddar wraig, Gwyneth a minnau a'n dau blentyn – ifanc iawn ar y pryd – i Fôn ddeugain mlynedd yn ôl, bu ein cartref ysbrydol yn Eglwys Gynulleidfaol, y Tabernacl, Porthaethwy.

Prysuraf i ddweud nad yw enwadaeth yn golygu fawr ddim i mi; dyna pam y cefais, ac y caf fy hun, yn rheolaidd yn arwain myfyrdod mewn capeli sy'n perthyn i bob enwad yn ddiwahân. I mi, yr hyn sy'n bwysig, yn allweddol gyffredin ydi ein bod ni, bawb, yn cyfarfod yn enw Iesu Grist a'i gariad.

Yn y Tabernacl cawsom o'r dechrau gartref croesawus, ymhlith ffrindiau ffyddlon. Bu yno fodd i ni a'n plant deimlo'n ddiogel a chartrefol drwy'r blynyddoedd. Bu, ac y mae yno o hyd gymdeithas hapus, gynhaliol, y dywed pawb sy'n ymweld â hi: 'Mi allwch chi deimlo'r croeso yn syth pan ddewch chi i mewn'. Dros y blynyddoedd gwn yn iawn fod niferoedd y rhai a ddaw i oedfa wedi disgyn, ond eto mae'r gyfran o'r aelodaeth sydd yn dal i fynychu yn aros yn ddigon tebyg o hyd ac yn rhyw ddau draean o'r aelodau. Gallem wneud efo rhagor o 'bobol ifanc', wrth gwrs, ond mae gennym yma o hyd drefn 'Ysgol Sul' i blant, ynghyd â dosbarth i oedolion - rhyw 8 i 10 ohonom pan fo pawb yno - lle cawn gyfle wythnosol gwerthfawr i drafod a myfyrio. Dan ofal ein bugail gofalus, y Parchedig Ronald Williams, mae pawb yn teimlo'n rhan o fywyd yr Eglwys. Cynhelir gwasanaeth 'teulu' yn fisol, gyda phlant ac ieuenctid yn cael cyfle i arwain. Mae yma grŵp bach yn cyfarfod i 'fyfyrio' mewn cartrefi unwaith y mis, te croeso hefyd, i unrhyw un sy am droi i mewn, eto unwaith bob mis. Yn olaf mae'r Gymdeithas yn cyfarfod ar fin nos ryw unwaith y mis drwy'r gaeaf - honno yn ddiweddar yn denu amryw o ffrindiau o enwadau eraill y cylch.

Felly dyna'r Tabernacl, fy 'nheulu' ym Mhorthaethwy, a fu'n ysbrydoliaeth i mi ac yn fodd i'm cynnal i a phawb a wynebodd golled a phrofedigaeth debyg i mi yn ystod bywyd. Dyma'r Eglwys y teimlais i, a Gwyneth gynt iddi fod yn fraint fawr gallu chwarae ein rhan fechan ninnau yn ei gwaith.

**Yna – ym Mhensylfania, America.**
**Bedyddwyr America** yw aelodau Eglwys Royersford, ychydig y tu allan i Philadelphia. Yno y mae fy mhriod, Mary a minnau yn cyrraedd ar gyfer yr Oedfa, am hanner awr wedi naw bob bore Sul. Mae hi'n Eglwys lewyrchus o ran ymddangosiad yr adeilad, yn fodern a hwylus, gyda'r capel addoli 'sanctaidd' ei hun yn dal tua thri chant. Yn ogystal ceir neuadd ddigwyddiadau braf ar gyfer cyngherddau, achlysuron cymdeithasol ac ati - hon eto yn dal rhyw bedwar cant arall pan fo rhaid. Mae yma ystafelloedd 'ysgol' y Sul, sy'n gartref i ddosbarthiadau plant meithrin yn ystod yr wythnos. Ceir swyddfeydd, ystafell ymarfer cerddoriaeth ac adain ar gyfer y clwb ieuenctid, sy'n cyfarfod ddwywaith neu dair bob wythnos.

Mae'r aelodaeth o ryw ddau gant a hanner i dri yn sicrhau bod o leiaf gant a hanner yn gyson ym mhob oedfa – un oedfa bob Sul. Mae tua dwsin o ganolfannau addoli amrywiol yn nhref Royersford a'r argraff a gaf yw bod bri ar fynychu'r oedfaon ar y Sul yn yr Eglwysi i gyd…a'r rhan fwyaf o ddigon yn ystyried Mr Trump yn yr un goleuni â ninnau!

Fel yn y Borth mae pawb yn awyddus i chi deimlo'n gartrefol…ac mi rydw i, pan fyddaf yno am gyfnodau. Rwy'n aelod o Gôr y Capel, sydd â rhyw ugain o aelodau ac yn cyfarfod i ymarfer bob nos Fercher. Mae cyfle i bawb ymuno a Grŵp Bach sy'n cyfarfod mewn cartrefi i fyfyrio, unwaith y mis. Anogir aelodau pob grŵp i gymdeithasu a chreu eu rhwydwaith 'teulu' eu hunain. Mynd allan i gerdded yn egnïol y mae merched grŵp Mary, bob bore Sadwrn drwy'r flwyddyn.

Wna i ddim mynd i restru gweithgareddau yn hirfaith, ond yn hytrach dyma gynnig ambell ffaith/sylw bach a all fod o ddiddordeb i ni wrth edrych y tu allan i'n teuluoedd eglwysig ein hunain yng Nghymru. Yn Royersford mae'r eglwys yn cynnal Gwasanaeth Cenhadu mewn gwledydd dros y byd. Mae ffrind i ni heddiw yn teithio yn ôl ac ymlaen i Nepal, un arall i Guatemala, dau i Haiti a Stan yn treulio llawer o'i fywyd yng nghanolbarth Affrica. Ac ydi, mae'r Eglwys yn noddi'r rhain, yn aml yn gyfan gwbl. Mae'r cyfrannu ariannol i waith yr Eglwys yn Royersford wedi gwneud i mi deimlo'n wir annigonol, gymaint yw'r ymdrech i fod yn hael, ac o gofio fel y lleihaodd y cyfraniadau yn rhai o'n capeli ni yng Nghymru.

Ond yn y ddwy Eglwys fel ei gilydd datblygodd yr angen am i ni fel aelodau fod yn barod i weithredu'n fwy ymarferol yn ein cymunedau. Golyga hyn geisio 'edrych allan' yn amlach, ceisio canfod anghenion dydd i ddydd y digartref a'r anghenus. Cefnogir ymgyrchoedd banciau bwyd / banciau dillad lleol, a chedwir llygad ar unigolion sy'n unig a llesg.

Yn Royersford mae yna aelodau yn yr eglwys sy'n ddu eu croen, yn frown ac yn deuluoedd â'u gwreiddiau yn Korea, Viet Nam, Japan a sawl gwlad yn y dwyrain pell. I mi dyma deulu'r byd. Yn sicr mae 'na ryw 'buzz' o gwmpas y capel, mae yna hwyl a brwdfrydedd a phobl o bob oed ynglŷn â'r gwaith, ac mae hynny'n rhoi gwefr yn fy matris innau wrth ddweud bod gwaith Crist yn mynd yn ei flaen. Ydi… yn union fel y mae o mewn criw llai, efallai, ond yr un mor sicr eu cerddediad yn y Tabernacl yn y Borth. Pob bendith.

# Addoli: Arwain a Phregethu

## *gan y Diacon Stephen Roe*

Bob rhyw ddeufis, bydd criw ohonom yn cyfarfod ar gyfer sesiwn 'archwilio', sy'n rhan o gwrs hyfforddi arweinwyr addoliad a phregethwyr lleol yn yr Eglwys Fethodistaidd. Rydym wedi ymuno â'r grŵp hwn am nifer o resymau: mae rhai yn parhau i geisio canfod a yw Duw yn eu galw i fod yn Arweinydd Addoliad neu Bregethwr Lleol, ac yn paratoi eu portffolio cyntaf ar hyn o bryd; bu eraill yn bregethwyr, lleyg neu ordeiniedig, ers blynyddoedd lawer, ac maent yn defnyddio'r cwrs er mwyn diweddaru eu gwybodaeth ac adfywio y ffordd maen nhw'n arwain addoliad; ac mae eraill yn dod er mwyn dilyn eu diddordeb mewn addoliad a diwinyddiaeth.

Arweinir pob sesiwn gan aelodau gwahanol o'r grŵp, a chawsom ddau sesiwn hynod o ddiddorol yn ddiweddar, un yn canolbwyntio ar 'Weddi' a'r llall ar 'Gyfarfod Duw mewn Adegau Anodd'. Yn y sesiwn ar weddi mi wnaethon ni ystyried y mathau gwahanol o weddïau rydym ni'n eu defnyddio mewn addoliad. Efallai yr hoffech chi ystyried sawl un ohonynt y gallwch chi eu hadnabod pan fyddwch chi'n addoli nesaf.

**Moliant** – cydnabod mawredd a daioni Duw, a gogoneddu Duw

**Ymbil** – galw ar Dduw i'n cynorthwyo i addoli

**Diolch** – dweud 'diolch' wrth Dduw

**Erfyniad** – gweddïo drosom ni ein hunain

**Eiriolaeth** - gweddïo dros eraill

**Cofio'r rhai a fu farw**

**Goleuad** – gofyn i Dduw lefaru wrthym ni trwy'r darlleniadau o'r Ysgrythur a'r pregethu

**Offrwm** – cynnig ein hunain i wasanaethu Duw

Buom hefyd yn trafod ffyrdd gwahanol o weddïo. Yn ein traddodiad anghydffurfiol, yr unig ffordd a ddefnyddir yn aml mewn gwasanaeth yw geiriau, a phob gair yn cael ei lefaru gan y pregethwr. Felly mi wnaethon ni ystyried a allwn ddefnyddio tawelwch, symbolau, cerddoriaeth, gweddïau ymatebol, gweddïau ysgrifenedig ac o'r frest, gan gydnabod mai priodol yw inni ddefnyddio ein holl synhwyrau i addoli Duw.

Mewn sesiwn arall, mi wnaethon ni drafod cwestiwn oesol dioddefaint, gan feddwl am gwestiynau fel:

'A yw dioddefaint yn rhan o ewyllys Duw?'

'Os yw Duw yn gariadlon ac yn hollrymus, pam nad yw'n rhwystro dioddefaint?'

'Pam y mae pobl dda yn dioddef?'

Fel y byddai rhywun yn disgwyl, gwneir defnydd helaeth o'r rhyngrwyd ar gyfer dilyn y cwrs a chyn i'r grŵp gyfarfod bob tro byddwn yn edrych ar adran 'Paratoi' ar wefan y cwrs. Wrth wneud hynny, byddwn yn dilyn dolenni sy'n mynd â ni at wahanol adnoddau, yn erthyglau ysgrifenedig, caneuon a cherddoriaeth, fideos ac ati. Un fideo wnaeth argraff fawr arnaf wrth ystyried adegau anodd mewn bywyd oedd anerchiad gan y Tad Richard Leonard, offeiriad Jeswitaidd o Awstralia. Os ydych chi'n defnyddio'r we ac yn dymuno ei wylio, mae ar gael ar https://www.youtube.com/watch?v=PH6dKc-mQBE.

Yn y fideo, mae'r Tad Leonard yn sôn am ei chwaer Tracey, oedd yn nyrs yn gweithio efo pobl frodorol yn Nhiriogaeth y Gogledd, Awstralia, pan gafodd ei pharlysu o'r gwddw i lawr mewn damwain draffig. Ymysg y llythyrau o 'gysur' a dderbyniodd y teulu yn dilyn y ddamwain yr oedd rhai yn dweud rhaid bod Tracey wedi cyflawni rhyw bechod ofnadwy yn y gorffennol, os oedd Duw yn achosi iddi ddioddef fel hyn; eraill wedyn yn mynegi'r farn bod Duw wedi achosi'r ddamwain er mwyn rhyw bwrpas dirgel nad oedd ond yn hysbys i Dduw. Mae'r Tad Leonard yn ymwrthod yn llwyr â syniadau o'r fath. Yn ei ing dirdynnol, fe ymgodymodd â chwestiwn dioddefaint a chyhoeddi llyfr dan y teitl 'Where the Hell is God?' Mae'n datgan ei gred nad yw Duw yn achosi i ni ddioddef ond ei fod yn bresennol yn ein mysg, nid lleiaf yn y rhai, fel mam Tracey, sydd yn gweini ar bobl fethedig.



Y Tad Richard Leonard

Wrth gwrs does dim ateb terfynol i'r cwestiwn o ddioddefaint, ond mae'n rhaid i ni seilio ein hymateb Cristnogol ar y digwyddiadau sydd wrth wraidd ein ffydd, sef y Pasg. Ar Galfaria, nid yw Duw yn achosi i Iesu ddioddef, mae Duw hefyd yn hongian ar y groes. Ac nid y dioddefaint ar y Groes sydd â'r gair olaf. Mae drygioni a dioddefaint yn gwneud eu gwaethaf, ac ateb terfynol Duw yw'r atgyfodiad. Ar y trydydd dydd cyfodwyd Crist i fywyd newydd.

Un o'm hoff emynau yw Caneuon Ffydd 99, 'Duw sydd gariad', lle cawn y llinellau:

a phan dyr calonnau dynion
o dan feichiau blinder byw
dônt o hyd i'r unfath boenau
yn nyfnderoedd calon Duw.

arnom ni chaiff angau'r trechaf
na chrafangau pechod fyth:
cariad ydyw Duw, a'i gariad
fo'n teyrnasu yn ddi-lyth.

Wnewch chi gofio yn eich gweddïau yn arbennig y rhai sydd yn gwneud y cwrs gyda'r bwriad o gael eu derbyn fel pregethwyr lleol neu arweinwyr addoliad. Mi fyddan nhw'n gweithio'n galed dros y misoedd nesaf yn paratoi'r portffolio cyntaf ar ôl cwblhau hanner cyntaf y cwrs, yn ogystal â pharhau i drefnu gwasanaethau. Bydd yn gymorth mawr iddynt wybod ein bod ni'n eu cefnogi, yn gweddïo drostynt, ac yn rhoi diolch i Dduw amdanynt.



# O’r pen yma

gan **Angharad Tomos**



Peth rhyfedd ydi distawrwydd. Bûm am dro neithiwr i ochrau’r Cilgwyn, un o’m hoff fannau, ac eisteddais yno yn gwylio’r haul yn machlud. Roedd yn brofiad tangnefeddus, ac i’r Cilgwyn yr af os ydw i eisiau tawelwch. Ond o aros yno yn ddigon hir, dof yn gyfarwydd efo synau’r fan, bref ambell ddafad, trydar yr adar, cŵn yn cyfarth, car yn dod i fyny’r lôn ac yn swnllyd ar y grid gwartheg. A dyna synau’r Cilgwyn.

Mae yna lot o sôn y dyddiau hyn am chwenychu tawelwch. Ceir erthyglau di-rif yn y papurau a’r cylchgronau am gael orig o dawelwch a ffoi o ddwndwr bywyd. Yng nghanol prysurdeb bywyd pob dydd, mae pobl yn edrych ymlaen at wythnos o wyliau a’r ddelfryd yw cerdded mynyddoedd neu orwedd ar draeth, a ‘llonydd gorffenedig’ yn cael ei brofi i’r eithaf.

Ond mae math arall o dawelwch, sy’n llawer rhy gyffredin, a dydi hwnnw ddim yn rhywbeth i’w geisio. Tawelwch unigrwydd yw hwn, tawelwch tŷ tawel, stryd dawel, pentref tawel lle nad oes neb yn galw, neb yn ffonio, neb yn taro heibio. Mae rhywbeth gorthrymus yn perthyn i hwn, lle teimlwn mai ‘araf y tipia’r cloc yr oriau meithion’, ac mae llawer llai o sôn am y math hwn o dawelwch. Yn aml, credir mai nodwedd o henoed ydyw, ond cofiaf ei brofi yn syth wedi rhoi genedigaeth. Wedi cynnwrf y geni, a’r holl ymweliadau a’r cardiau, syrthiodd tawelwch rhyfedd dros y tŷ. Roedd y byd yn mynd yn ei flaen, ond adref roeddwn i, heb neb i siarad â hwy. Roedd fy mywyd wedi newid yn llwyr, roedd pawb yn rhy brysur, ac roedd gofidiau magu yn peri i mi deimlo yn unig iawn. Un lle yr awn yn gyson iddo oedd y cartref henoed lleol. Yno, roedd pobl efo amser i siarad, ac roeddent yn dotio at gael gweld babi. Parodd hyn i mi feddwl mai yr hyn yr ydym wedi ei golli yn yr oes fodern yw cymysgu rhwng cenedlaethau. Rydym yn dda iawn am gadw pobl o wahanol oedran ar wahân. Mae gan bawb ei focs, a dydych chi ddim i fod i’w cymysgu.

Dyna pam yr oeddwn wrth fy modd o glywed fod syniadau cyfoes yn awyddus i gysylltu meithrinfeydd efo cartrefi henoed. Gall plant ifanc ymweld â chartrefi henoed, ac mae cymaint o fudd o’r cymdeithasu. Gallwn i gyd ei wneud. Rhowch amser i fynd i weld Taid a Nain, trefnwch fod plant yn mynd i weld pobl hŷn drws nesa neu dros ffordd. Mae rhieni angen dipyn o seibiant, ond yr ofn mawr yw ‘tarfu ar heddwch’ rhywun arall. Ambell waith, heddwch a thawelwch yw’r peth olaf rydan ni eisiau. Rydan ni wedi cael hen ddigon ohono, a gall gwên plentyn oleuo’r diwrnod tywyllaf. Does ryfedd i Iesu ddweud, ‘Gadewch i blant bychain ddod ataf i’.



Bedydd Meghan Mair yn Ebeneser, Treuddyn

**Y GWYLIEDYDD AR CD**

Os gwyddoch am rywun sydd yn ddall neu â nam ar eu golwg ac a hoffai dderbyn cryno ddisg gyda fersiwn llafar o’r *Gwyliedydd*, rhowch wybod i Robin a Ffion os gwelwch yn dda. Bydd nifer cyfyngedig o gryno ddisgiau ar gael, o’r rhifyn nesaf ymlaen gobeithio.



**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd.**

**MEHEFIN**

3 Dyffryn Clwyd
10 De Gwynedd
17 Cynhadledd Eglwys Fethodistaidd Iwerddon
24 Glannau Meirion a Dyfi

**GORFFENNAF**

1 Y Gynhadledd Fethodistaidd
8 Ddim ar gael
15 Môn ac Arfon
22 Ceredigion
29 Glannau Maelor

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau’r Cadeirydd ac ar bawb sy’n pregethu’r Efengyl

# TUDALEN Y PLANT

Sut mae'r hogyn am gyrraedd y castell tywod?



**Gweddi ar gyfer yr haf**
O Dduw, Ein Tad nefol, diolchwn am yr haf, am yr heulwen a'r dyddiau hir. Diolch am brydferthwch y byd yr wyt wedi ei greu i ni ei fwynhau. Diolch am lan y môr a hufen iâ ac am gael mynd am dro. Bendithia ni a chadwa ni'n ddiogel yr haf hwn a phob amser. Amen.

Beth am ddefnyddio'r sgwariau i wneud llun hufen iâ blasus

